

Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach



Ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r Pwyllgor Diwylliant

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru ers dros hanner canrif.

1.2. Cyn cyhoeddi papur gwyn y Llywodraeth, ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd y Gymdeithas bapur trafod ynghylch cryfhau'r deddfwriaeth iaith bresennol "Cryfhau Hawliau i'r Gymraeg - Dogfen Ymgynghorol ynghylch Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011"¹ sydd wedi'i atodi i'r ymateb hwn.

1.3. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda mudiadau a grwpiau diddordeb eraill gan gynnwys pedwar cyfarfod cyhoeddus i drafod ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth iaith newydd.

1.4. Mae ychydig dros ddwy flynedd ers i gyfundrefn y Safonau, a reolir gan Gomisiynydd y Gymraeg, ddechrau dod i rym. Croesawn y dystiolaeth sy'n ymdrin ag effaith y Safonau ar ddefnydd y Gymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017 yn adroddiad sicrwydd 2016-17 y Comisiynydd, "Hawliau'n Gwreiddio"², ac yn adroddiad 2017-18, "Mesur o Lwyddiant"³. Yn yr adroddiadau hynny, drwy gymharu ystadegau blwyddyn gyflawn o dan y gyfundrefn Safonau a'r flwyddyn cyn iddynt ddod i rym, amlygir nifer o ddatblygiadau cadarnhaol.

1.5. Ar y 24ain o Ionawr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fil y Gymraeg. Honnodd Gweinidog y Gymraeg yn ei datganiad ysgrifenedig: "cefnogwyd ein cynigion gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad". Fodd bynnag:

- Dim ond 77 ymateb allan o'r 504 ymateb i'r ymgynghoriad oedd o blaid diddymu Comisiynydd y Gymraeg, sef 15%;
- Gan ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd mwyafrif ymatebwyr yr ymgynghoriad yn gwrthwynebu rhan helaeth y cynigion yn y papur;
- Nid yw'r Llywodraeth wedi crynhoi sylwadau'r cyhoedd yn y gweithdai yn ystod yr ymgynghoriad

1.6. Yn dilyn cwyn gan y Gymdeithas nad oedd yr ystadegau yn y crynodeb yn gywir, cynhaliodd gwas sifil o adran arall adolygiad o'r mater. Daeth y swyddog i'r casgliad bod "sail i'r gŵyn" gan argymhell bod angen gwneud newid i ganllawiau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mewn ymateb i gasgliad adroddiad y gwas sifil, ym mis Chwefror eleni dywedodd y Gweinidog mai'r "unig beth fyddai'n newid yn y dyfodol wrth newid y canllawiau mewnol i swyddogion y Llywodraeth, fyddai cyhoeddi'r niferoedd ystadegol yn y dadansoddiadau unigol i bob cwestiwn. Ni fydd ein hystyriaeth bellach o'r materion polisi yn newid o ganlyniad i ddeilliant y gŵyn hon."

¹ [https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/CyIG%20Cryfhau%20Mesur%20A4\(1\).pdf](https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/CyIG%20Cryfhau%20Mesur%20A4(1).pdf)

² <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20170926%20DG%20Adroddiad%20Sicrwydd%20terfynol%20Cymraeg.pdf>

³ <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/REF18075%20-%20CD004%20-%20Sicrwydd%20Report%20-%20STP2.pdf>

2. Crynodeb

2.1. Mae modd crynhoi ein prif sylwadau fel a ganlyn:

- i) Dylai Llywodraeth Cymru ollwng cynigion y papur gwyn, ac yn lle hynny, canolbwyntio ar wneud popeth posib i wella gweithrediad y system o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, gan fwrw ati i symud pethau ymlaen oddi mewn i'r fframwaith hwnnw yn lle'r oedi difrifol sy'n digwydd ar hyn o bryd;
- ii) Nodwn gyda chryn syndod absenoldeb unrhyw dystiolaeth ryngwladol na domestig gadarn ym mhapur gwyn y Llywodraeth. Nodwn yn enwedig absenoldeb unrhyw dystiolaeth ynghylch profiad pobl o geisio defnyddio gwasanaethau Cymraeg a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu, er bod tystiolaeth ar gael, megis Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru ac adroddiad Cyngor ar Bopeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg;
- iii) Nodwn ymhellach, gyda chryn bryder, awgrym diweddar y Gweinidog y bydd oedi pellach cyn pasio Safonau mewn sectorau eraill nes bod Bil y Gymraeg wedi'i basio³, er gwaetha'r dystiolaeth uchod am effaith gadarnhaol y Safonau ar ymddygiad cyrff. Ar hyn o bryd, mae Mesur y Gymraeg, a ddaeth i rym yn 2011, yn caniatáu gosod dyletswyddau ar rai cwmnïau preifat, sef busnesau bysiau a threnau, ynni, dŵr a thelathrebu. Er bod grym gan y Llywodraeth a Chomisiynydd y Gymraeg i greu hawliau i'r Gymraeg yn y sectorau hynny ers saith mlynedd, nid oes dyddiad wedi'i osod pan fydd y rheoliadau yn y sectorau hynny yn cael eu cyflwyno i'r Senedd;
- iv) Croesawn bleidlais a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Hydref 2017 a oedd yn unfrydol o blaid ymestyn y Safonau i weddill y sector preifat. Pryderwn yn fawr fod penderfyniad y Llywodraeth i lunio Bil arfaethedig y Gymraeg, ynghyd â'i bolisi presennol o wrthod gosod Safonau ar gwmnïau preifat, yn rhwystro hynny rhag symud ymlaen;
- v) Nid oes ymdrech gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyn i ddysgu gwersi hanes o Ddeddf Iaith 1993 nac o gyfundrefnau eraill. Mae hynny'n wendid sylfaenol yng nghynigion y Llywodraeth: does dim dadansoddiad nac ystyriaeth o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod tua ugain mlynedd o dan Fwrdd yr Iaith a'r system cynlluniau iaith;
- vi) Dim ond ers mis Ebrill 2016 mae'r gyfundrefn newydd wedi bod yn weithredol, sef Safonau a reoleiddir gan y Comisiynydd, ac nid yw'r Llywodraeth wedi darparu tystiolaeth sy'n dod yn agos at safon ddeallusol dderbyniol er mwyn cyfiawnhau ei chynigion.

3. Cloriannu Bil y Gymraeg arfaethedig Llywodraeth Cymru

3.1. Mae ein hymateb llawn i gynigion y Llywodraeth ar gyfer Bil y Gymraeg i'w weld yma:

<https://cymdeithas.cymru/dogfen/bil-y-gymraeg-ir-bin-ymateb-ir-ymgyngoriad>

3.2. Fodd bynnag, gallwn grynhai ein safbwynt ar y Bil fel a ganlyn:

- Dylai Llywodraeth Cymru ollwng cynigion y papur gwyn a dechrau eto gan eu bod wedi gwrandao ar gyrff a busnesau ar draul hawliau cefnogwyr a defnyddwyr y Gymraeg.
- Mae cynigion y papur gwyn mor bell o ddeddfwriaeth gall a fyddai'n amddiffyn ac yn ymestyn hawliau i'r Gymraeg y byddai'n well peidio â deddfu o gwbl na phasio cynigion o'r fath, ac yn hytrach, bwrw ati i wneud y gwaith y gellir ei wneud, ond sydd heb ei wneud, o dan y Mesur presennol.
- Credwn y dylid ymestyn y Safonau i weddill y sector preifat drwy enwi sectorau ar wyneb y Mesur, gan ddechrau'n syth gydag archfarchnadoedd, banciau, cyrff y goron, mân-werthwyr a

chwmniau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol, gydag amserlen, a hawl i gynnwys rhagor o sectorau drwy is-ddeddfwriaeth. Os yw safbwynt y Llywodraeth bresennol yn parhau i fod fel y'i hamlinellir yn y Papur Gwyn, sef nad ydynt o blaid ymestyn Safonau i weddill y sector preifat, byddai'n fwy llesol gweithredu'r Mesur presennol yn llawn yn hytrach na deddfu o'r newydd.

- Dylid cadw Comisiynydd y Gymraeg fel corff rheoleiddio ar wahân gan ei fod yn fodel a ddefnyddir yn rhyngwladol a'i fod yn cyd-fynd â phatrwm yng Nghymru o Gomisiynydd Plant, Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai sefydlu Comisiwn yn lle Comisiynydd y Gymraeg yn gam mawr yn ôl ac yn gyfystyr ag ail-sefydlu Bwrdd yr Iaith – cyfundrefn a ddiddymwyd yn 2012 oherwydd ei methiannau.
- Mae angen hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y ddeddfwriaeth, i gyd-fynd â'r Safonau, er eglurder i'r cyhoedd ac er mwyn llywio'r Safonau i sicrhau eu bod yn esblygu ac yn gwella ac er mwyn llenwi'r manau gwan ynddynt.

3.3. Credwn y byddai'r papur gwyn yn cael yr effaith ganlynol ar y gyfundrefn bresennol:

- Byddai'n troi'r cloc yn ôl drwy ail-sefydlu nifer o elfennau aflwyddiannus cyfundrefn Deddf Iaith 1993
- Byddai'n gwanhau hawliau ac yn lleihau grym y defnyddiwr:
 - gan y byddai'n rhaid gwneud cwynion wrth gyrff unigol am fethiannau i gynnig gwasanaeth Cymraeg ac na fyddai modd mynd yn syth at y Comisiynydd;
 - gan mai dim ond ynghylch cwynion 'difrifol' y byddai modd cynnal ymchwiliadau;
 - gan y byddai'n rhoi'r grym i osod Safonau ar gyrff i'r Llywodraeth yn lle'r Comisiynydd
 - gan y byddai'n gwanhau rheoleiddio wrth gyfuno swyddogaethau rheoleiddio a hyrwyddo o fewn un corff a fydd yn gorfod aberthu ei waith rheoleiddio er mwyn canolbwyntio a llwyddo yn ei waith hybu a hyrwyddo
- Byddai'n cymhlethu'r system drwy ychwanegu haen ychwanegol, ond ddi-rym, o 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol', ar ben y Safonau a'r cynlluniau iaith (sy'n dal i fod yn weithredol mewn rhai sefydliadau).
- Byddai'n ei gwneud yn llai tebygol y bydd mwy o'r sector breifat yn gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg gan na fyddai amserlen i osod Safonau ar restr benodol o gyrff ac oherwydd mai'r Llywodraeth, ac nid y Comisiynydd, fyddai'n gyfrifol am gychwyn y broses o ddod â mwy o sectorau o dan ddyletswyddau iaith
- Byddai'n blaenoriaethu buddiannau cyrff yn lle defnyddwyr. Mae'r Papur Gwyn yn argymhell, er enghraifft, y dylai fod 'siop un stop' er hwylustod i gyrff, ond byddai'r cynigion yn gorfodi defnyddwyr i gysylltu â channoedd o gyrff unigol er mwyn gwneud cwynion am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg.
- Byddai'n canoli grym yn nwylo Llywodraeth Cymru gan mai nhw fyddai'n rheoli'n llwyr pwy sy'n dod o dan ddyletswydd iaith, pa rai, dan ba amodau ac erbyn pryd. Y Llywodraeth hefyd fyddai'n penodi prif swyddogion y cyrff fyddai'n rheoleiddio a hybu hawliau i'r Gymraeg

3.4 Rydyn ni'n credu bod gwallau dadansoddol sylfaenol yn y ddogfen:

- Mae'n brin iawn o dystiolaeth ryngwladol a chenedlaethol gymharol sy'n cyfiawnhau'r cynigion:

- Mae'r cynigion yn seiliedig ar brofiad dim ond "naw mis ar ôl i'r Safonau cyntaf ddod i rym" (para 209, tud. 52 y papur gwyn)
- Nid oes esboniad pam y byddai'r Llywodraeth yn gwyro oddi ar y model Comisiynydd a sefydlwyd yng Nghymru ar gyfer Plant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'r Gymraeg.
- Nid oes rhesymeg na thystiolaeth gymharol ryngwladol na domestig yn y Papur Gwyn sy'n ceisio cyfiawnhau pam y dylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg wedi dim ond chwe blynedd o fodolaeth y swyddogaeth.
- Nid yw'n cyfeirio at dystiolaeth adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg sy'n amlygu nifer o welliannau o ganlyniad i waith y Comisiynydd ar reoleiddio Safonau'r Gymraeg.
- Mae'n anwybyddu profiad ugain mlynedd o Fwrdd yr Iaith, gan ddangos anwybodaeth lwyr o fethiannau trefn Deddf Iaith 1993: nid oes sôn yn y papur am fethiannau'r gyfundrefn flaenorol na pham y'i diddymwyd.
- Mae'n canolbwyntio ar newidiadau biwrocraataidd yn lle cynigion i gryfhau ac ymestyn hawliau pobl gyffredin i'r iaith.
- Mae'n gwneud defnydd cwbl gamarweiniol o ystadegau:
 - drwy ddatgan bod defnydd o wasanaethau Cymraeg y DVLA yn isel, heb gydnabod nad yw'r corff yn dod o dan y Safonau eto;
 - drwy honni bod defnydd o wefan Gymraeg Cyngor Abertawe yn isel, er bod nifer yr ymweliadau â'r wefan ym mis Mehefin 2017 ar ei uchaf erioed (bron dair gwaith yn fwy (2.2%) nag ym mis Hydref 2014 (0.84%) ac yn gyson uwch ers i'r Safonau ddod i rym);
 - drwy ddyfynnu Cyngor Wrecsam bod "0.5% o'r galwadau i'r ganolfan gyswllt a'r ymweliadau â'r ganolfan yn Gymraeg", ond heb gydnabod bod hynny chwe gwaith yn uwch na'r lefelau cyn i'r Safonau ddod i rym.

3.5. O ystyried nad oes consensws o blaid newidiadau arfaethedig y Llywodraeth yn y papur gwyn, credwn, fel ffordd ymlaen, y dylai'r Llywodraeth:

- i. gollwng cynigion y papur gwyn a gwneud popeth posib i wella gweithrediad y system o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, gan fwrw ati i symud pethau ymlaen oddi mewn i'r fframwaith hwnnw yn lle creu'r oedi difrifol sy'n digwydd ar hyn o bryd; a
- ii. dechrau o'r dechrau gyda'r papur gwyn, a dod yn ôl gyda phapur gwyn newydd pan fo rhywbeth gwerth chweil gan y Llywodraeth i'w gynnig sef:
 - Cryfhau'r Safonau drwy sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyneb y ddeddf
 - Gosod Safonau ar weddill y sector breifat, gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr, cyrff y 'goron' a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr gan osod terfynau amser o ran gosod Safonau arnynt
 - Cryfhau pwerau ac annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a sefydlu corff *ar wahân* i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg

3.6. Gwella Gweithrediad y Gyfundrefn Bresennol heb ddeddfwriaeth sylfaenol

3.6.1. Yn lle bwrw ymlaen gyda'r Papur Gwyn, argymhellwn y dylai'r Llywodraeth:

- i) Weithredu mesurau i wella a hwyluso gweithrediad y ddeddfwriaeth bresennol
- ii) Cyhoeddi amserlen ar gyfer gosod Safonau ar yr holl sectorau o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg 2011

3.6.2. Cam 1 – Gweithredu'r ddeddfwriaeth bresennol yn well

3.6.3. Argymhellwn nifer o opsiynau o ran gwella'r sefyllfa bresennol heb fod angen deddfu:

- i) Gwella a chyflymu'r broses o osod Safonau, drwy lunio rheoliadau ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.** Byddai hyn yn golygu bod mwy o arbenigedd ac adnoddau ynghlwm â'r broses o lunio'r Safonau, a byddai'n osgoi rhagor o oedi diangen.
- ii) Cydweithio gwell rhwng y Llywodraeth a Chomisiynydd y Gymraeg drwy gynnal Ymchwiliad Safonau sy'n ymgynghoriad cyhoeddus** ar reoliadau drafft ar gyfer y sector dan sylw, er mwyn osgoi ymgynghori ddwywaith.
- iii) Gwella gweithrediad y gyfundrefn gwyno drwy sefydlu protocol newydd rhwng Comisiynydd y Gymraeg a chyrrff ynghylch y system gwyno.** Dylai'r protocol (i) osgoi dyblygu gwaith, (ii) anelu at roi gwybod i gyrff am gwynion yn gynnar, a (iii) ei gwneud yn gliriach i'r cyhoedd bod hawl i gwyno wrth y corff neu'r Comisiynydd.
- iv) Sefydlu Corff Hyrwyddo newydd fel cwmni, heb statud** - credwn y dylai fod corff hyrwyddo newydd yn ogystal â'r (ac ar wahân i'r) Comisiynydd. Fel yn achos y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gellid sefydlu corff heb ddeddfu.

3.6.4. Cam 2 – Amserlen ar gyfer gosod Safonau ar yr holl sectorau o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg 2011

3.6.5. Hyd at fis Medi 2018, roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn adroddiadau ymchwiliad Safonau - sef y cam cyntaf yn y broses o greu Safonau - gan y Comisiynydd ar gyfer nifer o sectorau, ond heb weithredu arnynt:

Sector	Dyddiad derbyniodd y Llywodraeth adroddiad ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd	Nodiadau
Cymdeithasau Tai	Hydref 2015	Dim esboniad am yr oedi
Dŵr	Tachwedd 2015	<u>Daeth ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru i ben ar 17/2/2017</u> Dim esboniad am yr oedi pellach.
Cwmnïau Post	Tachwedd 2015	Dim esboniad am yr oedi
Bysiau, Trenau a Rheilffyrdd	Hydref 2016	Dim esboniad am yr oedi
Nwy a Thrydan	Chwefror 2017	Dim esboniad am yr oedi
Telathrebu		Dim adroddiad na sylw gan y Comisiynydd na'r Llywodraeth

3.6.7. Galwn felly am amserlen glir gan Lywodraeth Cymru i ddod â Safonau i rym ar gyfer y sectorau sy'n weddill, gan gynnwys y sector telathrebu.

4. Asesu llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth, ac effaith ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg

4.1. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad sicrwydd oedd yn darparu'r dystiolaeth gyntaf ar ôl y flwyddyn gyntaf o weithredu Safonau'r Gymraeg. Yn yr adroddiad, drwy gymharu ystadegau blwyddyn gyflawn dan gyfundrefn y Safonau a'r flwyddyn cyn iddynt ddod i rym, amlygir nifer o ddatblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- Roedd 76% o'r farn bod gwasanaethau Cymraeg cyrff cyhoeddus yn gwella, a dim ond 10% yn anghytuno
- Roedd 57% yn credu bod cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg
- Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer 25% o'r swyddi a hysbysebwyd – o gymharu ag 16% yn 2015-16 – sy'n gynnydd o 56%.
- Yn y sector iechyd (nad yw'n rhan o'r gyfundrefn Safonau eto) roedd canran y swyddi a hysbysebir lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol wedi aros yn ei hunfan (rhwng 2015-16 a 2016-17), a hynny ar 1% o swyddi yn unig
- Roedd cynnydd, o 50% i 96%, yn nifer y gwasanaethau ffôn lle cynigir dewis iaith yn ddiodyn
- Roedd cynnydd, o 32% i 45%, yn nifer y cynghorau sy'n cynnig pob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg

4.2. Ym mis Awst eleni, cyhoeddwyd "Mesur o Lwyddiant". Roedd prif gasgliadau'r adroddiad hwnnw yn nodi bod:

- cyfarchiad Cymraeg gan dderbynnydd yn ystod 89% o alwadau ffôn
- ymateb Cymraeg i e-bost mewn 93% o achosion
- 100% o beiriannau hunanwasanaeth yn gweithio'n llawn yn Gymraeg
- 82% yn cytuno fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chynghorau sir yn cynyddu neu wedi aros yr un peth.
- 100% o'r sefydliadau a holwyd yn darparu meddalwedd gwirio sillafu Cymraeg i'w staff
- 69% o'r sefydliadau a holwyd yn cynnig rhyngwyneb Cymraeg i gyfrifiaduron
- Llwyddodd 85% o'r sefydliadau a holwyd i rannu enghreifftiau o bolisiau a dogfennau oedd ar gael yn Gymraeg i staff

4.3. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith ymchwil yn dangos bod 73% yn fwy o swyddi cynghorau sir yn gofyn am sgiliau Cymraeg ers i'r Safonau ddod i rym⁴.

4.3. Cymhariaeth rhwng y gyfundrefnau statudol yng Nghymru

4.3.1. Mae'n werth cymharu rhai o'r prif wahaniaethau rhwng y gyfundrefn bresennol, yr un flaenorol a system arfaethedig y Llywodraeth:

	Mesur y Gymraeg	Deddf Iaith 1993	Bil arfaethedig y
--	-----------------	------------------	-------------------

⁴ <https://cymdeithas.cymru/newyddion/73-yn-fwy-o-swyddi-cymraeg-yn-hanfodol-arwyddion-cadarnhaol-effaith-y-safonau-iaith>

	2011 (Comisiynydd y Gymraeg)	(Bwrdd yr Iaith)	Gymraeg
Opsiwn i gwyno'n syth at y Comisiynydd	Oes	Nac oedd	Na fyddai
Hawliau gorfodadwy i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg	Oes, drwy bob Safon	Nac oedd, heblaw mewn ychydig iawn o amgylchiadau	Na fyddai
Nifer o ymchwiliadau i gwynion bob blwyddyn o gymharu â'r nifer o gwynion	66 ymchwiliad gan y Comisiynydd allan o 151 cwyn am gyrff o dan gyfundrefn y Safonau yn 2016/17 (sef 44%) 4 ymchwiliad allan o 112 cwyn o dan gyfundrefn y cynlluniau iaith yn 2016/17 (sef 3.6%)	5 ymchwiliad allan o 206 cwyn yn 2010-11 (sef 2.4%)	Disgwylir lefel debyg o ymchwilio i hen Ddeddf Iaith 1993 oherwydd y cyfyngiadau arfaethedig ar y gallu i wneud cwynion ac i ymchwilio
Ymchwilio i gwynion 'difrifol' yn unig	Nage	Ie	Ie
Cyhoedd yn gorfod cwyno wrth y corff yn gyntaf	Nac ydyn, mae opsiwn i fynd at y Comisiynydd yn gyntaf	Oedden, gorfod cwyno wrth y corff cyn mynd at Fwrdd yr Iaith	Byddai, byddai rhaid cwyno wrth y corff cyn mynd at y Comisiwn arfaethedig
Cyfuno rheoleiddio a hybu'r iaith o fewn un corff	Nac ydy, mae rheoleiddio gyda'r Comisiynydd a hybu gyda'r Llywodraeth	Oedd, Bwrdd yr Iaith	Byddai, Comisiwn arfaethedig
Cynlluniau iaith di-rym	Nage	Ie	Ie

4.3.2. Fel y gwelwch, mae Bil arfaethedig y Gymraeg y Llywodraeth yn debyg iawn mewn nifer o ffyrdd pwysig i hen gyfundrefn Deddf Iaith 1993, cyfundrefn a fethodd. Nid oedd rhan helaeth o gwynion y cyhoedd am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg o dan yr hen gyfundrefn honno yn cael ymchwiliad, ac felly nid oedd unrhyw bosibiliad o gamau gorfodi ar gyrff i sicrhau eu bod yn darparu ac yn gwella. Collodd defnyddwyr y Gymraeg ffydd yn y broses a'r system yn gyfan gwbl.

5. Asesu a yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwn.

5.1. Y Safonau yn cynyddu defnydd

5.1.1. Credwn fod nifer o enghreifftiau o effaith gadarnhaol cyfundrefn Mesur y Gymraeg 2011, megis:

(i) sefydlu hawliau i wersi nofio Cymraeg;

(ii) newid peiriannau hunan-wasanaeth i weithredu'n Gymraeg yn ddiodyn; a

(iii) cynyddu nifer y swyddi a hysbysebwr sy'n nodi'r Gymraeg fel sgil hanfodol

5.1.2. Credwn fod nifer o bosibiliadau ehangach, o dan y gyfundrefn ddeddfwriaethol bresennol, i gyrff ddefnyddio'r Safonau a statws swyddogol y Gymraeg er mwyn arbrofi â dulliau hergwdd neu 'nudge' i gynyddu defnydd yr iaith.

5.2. Gwella Hybu

5.2.1. Fel y nodir uchod, rydym wedi dadlau ers ymhell dros ddegawd dros sefydlu corff ar wahân i'r Comisiynydd a'r Llywodraeth, i gymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg, sef Cyngor y Gymraeg, fyddai â chyllid a grym strategol sylweddol i hyrwyddo defnydd yr iaith. Credwn fod manteision o sefydlu corff ychwanegol o'r math yma ar wahân. Yn sicr, nid cyfuno hyrwyddo a rheoleiddio yw'r ffordd ymlaen. Fel dywedir uchod, credwn y gellid sefydlu corff hybu penodol heb newid y ddeddfwriaeth gynradd.

5.2.2. Ddechrau 2017, cyhoeddodd y Gymdeithas bapur yn amlinellu strwythur bosib ar gyfer y corff. Mae'r papur i'w weld yma: <https://cymdeithas.cymru/dogfen/cyngor-y-gymraeg-corff-annibynnol-i-hyrwyddor-gymraeg>. Wrth argymhell y math hwn o gorff, fe nodon ni'r egwyddorion canlynol:

- Ni ddylai'r corff hyrwyddo newydd ddod ar draul annibyniaeth na gwaith Comisiynydd y Gymraeg
- Credwn fod angen cadw materion rheoleiddio a hyrwyddo fel dau fater ar wahân sy'n gyfrifoldeb dau gorff ar wahân
- Yr angen am strategaeth gydlynol gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru wedi'i seilio ar ddealltwriaeth drwyadl o egwyddorion Cynllunio Ieithyddol
- Yr angen i ffiniau cyfrifoldeb rhwng y gwahanol endidau sydd â chyfrifoldeb dros gynnydd y Gymraeg fod yn glir a diamwys.

5.2.3. Ymhellach, credwn fod angen buddsoddiad llawer iawn mwy sylweddol mewn prosiectau i hybu'r Gymraeg. Yng Ngwlad y Basg, mae Llywodraeth y rhanbarth ymreolaethol yn gwario tua 1% o'i chyllideb ddatganoledig ar brosiectau i hyrwyddo'r Fasgeg; yng Nghymru mae'r ffigwr oddeutu 0.16%. Yn yr ardal honno, gwelwn fod y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth, ac mae'n bosib cymharu hynny gydag ardaloedd yng Ngwlad y Basg nad ydynt yn rhan o'r gymuned ymreolaethol. Yn 2016, cyhoeddod ni bapur yn argymhell bod angen gosod nod a dyddiad targed i gynyddu dros amser ganran y gyllideb ar brosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg o 0.16% o'r gyllideb i 1%. Nid yw cynigion Bil y Gymraeg yn cynnig mynd i'r afael â'r mater yma o gwbl, yn hytrach, maent yn argymhell symud yr un arian o gwmpas rhwng gwahanol gyrff.

5.3. Anghysondeb rhwng cyrff datganoledig a chyrrff Llywodraeth Prydain

5.3.1. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nid oes modd gorfodi cyrrff y goron, megis yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) a'r Swyddfa Basbort, i gydymffurfio â'r Safonau heb ganiatâd Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi caniatáu i'r un o gyrff y goron fod yn ddarostyngedig i'r Safonau ers i'r Mesur ddod i rym yn 2011.

5.3.2. Mae problemau enfawr yn deillio o fethiant Llywodraeth Prydain i ganiatáu i'r cyrrff hyn ddod o dan y gyfundrefn Safonau. Mae diffyg gwasanaethau Cymraeg, a gwasanaethau Cymraeg tameidiog ac eilradd, yn cael eu cynnig o achos bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gwrthod cydsynio. Credwn y dylai'r pwyllgor ofyn am dystiolaeth gan Swyddfa Cymru ar y cwestiwn hwn.

5.4. Ehangu'r Safonau i weddill y sector breifat

5.4.1. O'r dystiolaeth wrthrychol, mae'n glir bod y Safonau yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Yn rhesymegol felly, dylai'r Llywodraeth fod o blaid ymestyn y buddion o ran statws, defnydd a phresenoldeb y Gymraeg i bob agwedd ar fywyd.

5.4.2. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi anwybyddu barn glir Aelodau Cynulliad, fel y mynegwyd mewn pleidlais ym mis Hydref 2017⁵, o blaid estyn y Safonau i weddill y sector breifat. Mae dadleuon y Llywodraeth a'u hymdrechion i oedi a rhwystro'r broses honno'n ymdrech ddigwylydd i flaenoriaethu elw busnesau mawrion yn hytrach na'r Gymraeg.

6. Persbectif rhyngwladol

6.1. Dylid nodi bod Comisiynwyr Iaith yn system o reoleiddio a gydnabyddir yn fyd-eang fel un sy'n gweithio.

6.2. Mae'r tiriogaethau sydd wedi bod ymysg y mwyaf llwyddiannus o ran adfer ieithoedd lleiafrifoledig - Québec, Catalwnia a Gwlad y Basg - yn cynnwys y sector breifat o dan eu systemau hawliau a rheoleiddio iaith. Yn y tair cyfundrefn honno, mae hawliau iaith yn llawer ehangach na'r hyn a geir yng Nghymru. Dyma rai elfennau sy'n werth eu nodi amdanyn nhw:

(i) hawliau cyffredinol i'r iaith dan sylw mewn statud sy'n ymestyn i'r sector breifat;

(ii) hawliau a/neu broses normaleiddio addysg yr iaith frodorol mewn statud;

(iii) cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu

	Québec: Siarter Hawliau Iaith Sylfaenol ⁶	Gwlad y Basg: Deddf Sylfaenol rhif 10, 24ain Tachwedd 1982 ⁷	Catalwnia: Deddf Polisi Iaith, Rhif 1, 1998
Hawliau Cyffredinol	<p>PENNOD II</p> <p>2. Mae gan bawb hawl i gael y weinyddiaeth sifil, y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, y cyfleustodau cyhoeddus, yr urddau proffesiynol, yr undebau gweithwyr a phob menter sy'n gwneud busnes yn Québec i gyfathrebu â nhw yn Ffrangeg.</p> <p>3. Mewn cynulliad cydgynghorol, mae gan bawb hawl i siarad yn Ffrangeg.</p>	<p>Erthygl 5 a 6</p> <p>1. Mae gan holl ddinasyddion Gwlad y Basg yr hawl i fedru ac i ddefnyddio'r [Fasgeg], ar lafar ac yn ysgrifenedig.</p> <p>2. Mae'r hawliau ieithyddol sylfaenol canlynol sydd gan ddinasyddion Gwlad y Basg yn cael eu cydnabod:</p> <p>Mewn perthynas â'r Weinyddiaeth a Sefydliadau Eraill,</p> <p>a) Yr hawl i gynnal cysylltiadau yn y Fasgeg ...</p>	<p>Erthyglau 3 a 4</p> <p>Gellir defnyddio'r Gatalaneg ... [fel iaith swyddogol] yn ddiwahân gan ddinasyddion ym mhob gweithgaredd preifat a chyhoeddus yn ddiethriad. Mae gan weithdrefnau cyfreithiol a gynhelir yn [y Gatalaneg] cyn belled ag y mae'r iaith a ddefnyddir yn y cwestiwn, ddilysrwydd ac effaith llawn.</p> <p>Mae gan bawb yng Nghatalwnia yr hawl:</p> <p>A) i fod yn rhugl yn [y Gatalaneg]</p> <p>B) i fynegi eu hunain yn [y</p>

⁵ <http://record.assembly.wales/Plenary/4646?lang=cy-GB#A957>

⁶ <http://www.legisquebec.gouv.qc.ca/en/showdoc/cs/C-11>

⁷ http://www.legebiltzarra.eus/pdfdocs/leyes/ley19820010_f_eus.html

	<p>5. Mae gan ddefnyddwyr nwyddau a gwasanaethau hawl i gael gwybodaeth a gwasanaeth yn Ffrangeg.</p>	<p>ar lafar a/neu yn ysgrifenedig â'r Weinyddiaeth ac unrhyw gorff neu sefydliad swyddogol sydd wedi'i leoli yn y Gymuned Ymreolaethol.</p> <p>b) Yr hawl i dderbyn neu'r hawl i gael eu dysgu yn [y Fasgeg]</p> <p>c) Yr hawl i dderbyn cyhoeddiadau, rhaglenni radio a theledu a ffurfiau eraill o gyfathrebu yn y Fasgeg.</p> <p>ch) Yr hawl i ddatblygu gweithgareddau undebol, proffesiynol, gwaith a gwleidyddol yn y Fasgeg.</p> <p>d) Yr hawl i fynegi eich hun yn y Fasgeg mewn unrhyw gyfarfod.</p> <p>3. Bydd yr awdurdodau cyhoeddus yn gwarantu y caiff yr hawliau hyn eu gweithredu, yn ardaloedd tiriogaethol y Gymuned Ymreolaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn weithredol.</p> <p>Erthygl 6</p> <p>1. Bydd hawl pob dinesydd i ddefnyddio'r [Fasgeg] wrth ymwneud o fewn ardaloedd y Gymuned Ymreolaethol, ac i gael eu trin yn [y Fasgeg], yn cael ei gydnabod. I'r perwyl hwn, cymerir mesurau perthnasol a darperir y dulliau angenrheidiol er mwyn sicrhau y gweithredir yr hawl hwn yn gynyddol</p>	<p>Gatalaneg], ar lafar neu yn ysgrifenedig, yn eu cysylltiadau yn ogystal ag mewn gweithdrefnau preifat a chyhoeddus</p> <p>C) i gael eu gwasanaethau yn [y Gatalaneg] yn y modd a bennir gan y Ddeddf hon</p> <p>Ch) i ddefnyddio'r [Gatalaneg] yn rhydd ym mhob maes</p> <p>D) i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail yr iaith swyddogol a ddefnyddiant</p>
Gweithlu	4. Mae gan weithwyr	Erthygl 14 – Gwlad y Basg	Erthygl 24

	<p>hawl i gynnal eu gweithgareddau yn Ffrangeg.</p> <p>18. Ffrangeg yw iaith cyfathrebu mewnol ysgrifenedig y Llywodraeth, adrannau llywodraeth, ac asiantaethau eraill y weinyddiaeth sifil.</p>	<p>1. Er mwyn rhoi effaith i'r hawliau a gydnabyddir yn Erthygl 6 y gyfraith hon, bydd yr awdurdodau cyhoeddus yn mabwysiadu'r mesurau hynny a fydd yn gogwyddo'n gynyddol tuag at y Fasgeg fel iaith y gweithlu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad.</p>	<p>Bydd y staff addysgu yn sefydliadau addysg Catalwnia, ar unrhyw lefel o addysg nad yw'n addysg prifysgol, yn medru'r ddwy iaith ac yn medru eu defnyddio yn eu tasgau dysgu.</p>
<p>Hawliau Addysg</p>	<p>6. Mae gan bawb sy'n gymwys i gael hyfforddiant yn Québec hawl i gael yr hyfforddiant hwnnw yn Ffrangeg.</p>	<p>Erthygl 19 a 20 Bydd Ysgolion Hyfforddi Athrawon y Brifysgol yn addasu eu cynlluniau addysgu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn hollol rugl yn y Fasgeg a'r Sbaeneg, yn unol â gofynion eu harbenigedd</p> <p>1. Bydd y Llywodraeth, er mwyn rhoi effaith i'r hawl i dderbyn addysg yn y Fasgeg, yn sefydlu'r dulliau hynny a fydd yn gogwyddo tuag at wneud y gweithlu addysgu yn gynyddol Fasgeg ei iaith.</p> <p>2. Yn yr un modd, bydd yn penderfynu pa swyddi y bydd medru'r Fasgeg yn hanfodol ar eu cyfer, er mwyn cydymffurfio â'r hyn a bennir yn Erthyglau 15 ac 16 y ddeddf hon.</p>	<p>Erthygl 20 – deddf addysg Catalwnia:</p> <p>1. Mae'r Gatalaneg, fel priod iaith Catalwnia, hefyd yn iaith addysg, ar bob lefel ac ym mhob math o addysgu.</p> <p>2. Bydd sefydliadau addysg ar bob lefel yn peri mai'r Gatalaneg yw'r cyfrwng arferol i fynegi gweithgareddau addysgu a gweinyddol, yn fewnol ac yn allanol.</p> <p>Erthygl 21 – Catalwnia</p> <p>1. Y Gatalaneg ddylai gael ei defnyddio fel y cyfrwng addysgu a dysgu fel arfer mewn addysg nad yw'n addysg prifysgol</p> <p>Erthygl 22 – addysg uwch Catalwnia</p> <p>Mewn colegau addysg bellach a phrifysgolion, mae gan y staff a'r myfyrwyr yr hawl i fynegi eu hunain, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn yr iaith swyddogol o'u dewis</p>

7. Casgliadau

7.1. Mae papur gwyn Llywodraeth Cymru'n anwyddonol ac yn wastraff o amser ac adnoddau.

7.2. Credwn y dylai'r Llywodraeth ganolbwyntio ar weithredu'r Mesur presennol yn llawn, drwy ymestyn y Safonau i weddill y sectorau preifat ynghyd â gwella gweithrediad y gyfundrefn ddeddfwriaethol bresennol.

7.3. Wedi i'r Mesur presennol gael ei weithredu'n llawn, credwn y dylai'r Llywodraeth ystyried Deddf laith gryfach yn dilyn y cynigion a amlinellir uchod.

Cymdeithas yr Iaith

Medi 2018

Cryfhau Hawliau i'r Gymraeg - drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Dogfen Ymgynghorol 'Deddf i'w Defnyddio, nid Bil Biwrocraataidd'

1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir – Hanes Deddfwriaeth Iaith	3
3. Datblygiadau ers Mesur y Gymraeg 2011	4
4. Pam newid?	5
5. Asesu'r Gyfundrefn Bresennol – Meysydd i'w Gwella	6
6. Asesu'r Gyfundrefn Bresennol – Cryfderau i adeiladu arnynt	12
7. Beth sydd angen newid? Crynodeb	14
8. Hawliau Cyffredinol i'r Gymraeg	15
9. Y Gweithlu	19
10. Ymestyn Mesur y Gymraeg 2011 i weddill y sector breifat	20
11. Gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg	21
12. Diogelu a hyrwyddo enwau Cymraeg a statws y Gymraeg ym mhob maes	22
13. Casgliadau	23
14. Ymateb i'r Ymgynghoriad	24

1. Cyflwyniad

1.1. Cefnogwyd ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf gan y prif bleidiau yn y Cynulliad a bu nifer fawr iawn o ymgeiswyr o bob plaid yn ei chefnogi ynghyd â nifer fawr o bobl ar hyd a lled y wlad. Dywed y weledigaeth:

“Dwi eisiau bod yn un mewn miliwn!

Dwi eisiau:

- *cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn*
- *atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'w cymunedau*
- ***defnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd***

1.2. Y trydydd pwynt bwled yw'r un mwyaf perthnasol i gynnwys y ddogfen hon. Mae'n bwysig nodi yn ogystal bod hawliau iaith cryfach yn helpu i atal yr allfudiad a chynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg.

2. Cefndir – Hanes Deddfwriaeth Iaith

2.1. Pasiwyd deddfwriaeth ynghylch yr iaith Gymraeg yn 1536, 1967 a 1993 yn Senedd San Steffan.

Deddf Uno 1536 – Datganai'r Ddeddf bod *“The people of the same dominion have and do daily use a speche nothing like ne (nor) consonaunt to the naturall mother tonge used within this Realme”, ac felly deddfwyd er mwyn “utterly to etirpe alle and singular the sinister usages and customs differing from the same... to an amiable concord and unity”, ac felly “From henceforth no person or persons that use the Welsh speech or language shall have or enjoy any office or fees.... unless he or they use and excercis the speech or language of English”.*

Deddf Iaith 1967 - Rhoddodd y Ddeddf ryddid i siarad Cymraeg gerbron y llysoedd a rhyddid i Weinidogion gyhoeddi dogfennau yn Gymraeg.

Deddf Iaith 1993 - Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg a'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfartal â'r Saesneg.

2.2. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio dau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau i'r Gymraeg yn benodol:

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - Ymrwymiad Llywodraeth Cymru'n Un a arweiniodd at ddeddfwriaeth iaith ddatganoledig am y tro cyntaf yn hanes ein gwlad. Pasiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 7 Rhagfyr 2010 a daeth i rym ar 9 Chwefror 2011. Sefydlwyd statws swyddogol y Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a chyfundrefn Safonau'r Gymraeg. O dan y setliad datganoli ar y pryd, bu rhaid pasio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol allu pasio'r ddeddfwriaeth. Gosodwyd nifer o gyfyngiadau ar bwerau deddfu'r Cynulliad o'i herwydd.

Deddf Ieithoedd Swyddogol 2012 - sy'n sefydlu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Cynulliad ac sy'n galluogi Comisiwn y Cynulliad i fabwysiadu cynllun iaith sy'n wahanol i gyfundrefn Safonau'r Gymraeg a weithredir gan holl gyrff eraill Cymru.

3. Datblygiadau ers Mesur y Gymraeg 2011

3.1. Ymysg y datblygiadau mwyaf diweddar mae'r canlynol:

- Pasiwyd Mesur y Gymraeg (2011) ym mis Rhagfyr 2010
- Penodwyd Comisiynydd y Gymraeg ar 2 Ebrill 2012
- Dechreuodd Comisiynydd y Gymraeg ymgynghoriad ar y set gyntaf o Safonau 'r Gymraeg ar 16 Mai 2012
- Gwrthododd Llywodraeth Cymru dderbyn y set o Safonau a argymhellwyd gan y Comisiynydd ar 25 Chwefror 2013
- Daeth cylch cyntaf Safonau'r Gymraeg, sy'n effeithio ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, yn weithredol ar 30 Mawrth 2016.

4. Pam newid?

4.1. Ymrwymadau manifesto

4.1.1. Gwnaed ymrwymiad ym manifesto Llafur Cymru yn etholiadau'r Cynulliad i gryfhau Mesur 2011. Dywedai'r manifesto: *"Byddwn yn diwygio Mesur y Gymraeg er mwyn i fusnesau a phobl eraill allu buddsoddi mwy yn annog y defnydd o'r Gymraeg."*

4.1.2. Roedd manifesto Plaid Cymru yn datgan: *"Mi gryfhawn y Safonau a ddisgwylir gan y sector cyhoeddus a sefydliadau sector-preifat mawr wrth ddelio â'r cyhoedd, yn cynnwys banciau ac archfarchnadoedd, a sefydliadau y tu hwnt i Gymru sy'n gwasanaethu cyhoedd Cymru."*

4.1.3. Felly, cafwyd ymrwymiad mewn dogfen a gytunwyd rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru i 'gryfhau' Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ond ni chafwyd manylion pellach. Dywedodd y Prif Weinidog mewn datganiad yn rhestru ei flaenoriaethau ar gyfer 100 diwrnod cyntaf y Llywodraeth newydd y *"byddwn hefyd yn ceisio diwygio Mesur y Gymraeg."*

5. Asesu'r Gyfundrefn Bresennol – Meysydd i'w Gwella

5.1.1. Dros bum mlynedd ers pasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n briodol edrych i gryfhau hawliau i'r Gymraeg yn sgil profiad gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

Canolbwyntio ar y defnyddiwr a defnydd

5.1.2. Credwn ei bod yn hanfodol bod y drafodaeth yn canolbwyntio ar safbwynt y defnyddiwr yn hytrach na phrosesau biwrocraataidd a'r hyn sy'n gyfleus i swyddogion. Felly, dyma grynodeb o rai o anafteision a manteision y gyfundrefn bresennol o bersbectif y defnyddiwr ac o ran hybu defnydd yr iaith.

5.2. Angen i'r cyhoedd ddeall yr hawliau

5.2.1. Mae 176 o Safonau yn y set gyntaf a basiwyd gan y Cynulliad y llynedd gydag amrywiaeth rhwng y pedair set sydd wedi gwanhau wrth i'r setiau fynd yn eu blaen. Sut all y cyhoedd gofio cymaint o hawliau? Nid yw'n bosib, ac nid oes ymdrech wirioneddol wedi'i gwneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u hawliau.

5.2.3. Er ei bod yn bwysig cofio bod y gyfundrefn yn symlach ac yn fwy cyson na'r gyfundrefn cynlluniau iaith, mae angen gwelliant sylweddol ar y gwaith o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau newydd y cyhoedd.

5.3. Angen am egwyddor sy'n gyrru'r Safonau

5.3.1. Er bod egwyddorion, neu brif nod, yn gyrru gwaith Comisiynydd y Gymraeg, nid oes egwyddor sy'n gyrru gwaith fframio'r Safonau, sy'n golygu nad yw cyfreithwyr Llywodraeth Cymru yn gorfod llunio hawliau cryf a chlir. Fodd bynnag, mae egwyddor sy'n gweithio er budd y cyrff, sef 'rhesymoldeb a chymesuredd', sy'n golygu bod pwysau arnynt i'w gwanhau.

5.3.2. Er na fydden ni am fynd yn ôl at gyfundrefn cynlluniau iaith, un o gryfderau'r gyfundrefn honno oedd y cymal safonol ynddynt sef 'trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal'. Roedd hyn yn creu disgwyliad y byddai gan bob corff gynllun iaith statudol i wella eu darpariaeth Gymraeg dros amser.

5.4. Hawliau coll - natur benodol y Safonau a drafftio gwael

5.4.1. O ganlyniad i'r ffordd mae gweision sifil a Llywodraeth Cymru wedi llunio'r Safonau, maent yn niferus ac yn benodol iawn i rai sefyllfaoedd yn unig. Yn anorfod felly, mae rhai sefyllfaoedd lle y byddai'n rhesymol i rywun ddisgwyl gwasanaeth Cymraeg er nad oes gofyniad statudol i'w ddarparu yn ôl y Safonau.

5.4.2. Cymerer, er enghraifft, sefyllfa lle mae rhywun yn gofyn am wasanaeth Cymraeg gan gorff dros gownter nad yw'n dderbynfa. Tra bod hysbysiaidau cydymffurfio rhai cyrff yn gofyn iddynt ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb yn y brif dderbynfa, nid oes disgwyliad i wneud hynny dros gownter. Yn yr un modd, tra bod gofyniad i rai cyrff ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb mewn prif dderbynfeydd, nid yw'r un disgwyliad yn bodoli wrth ddelio â staff diogelwch. Ble mae cymhelliant corff i wella'r sefyllfa? Pam nad oes hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl gwasanaeth Cymraeg ym mhob un sefyllfa?

5.4.3. Ymhellach, yn achos yr heddlu, dim ond pan fo rhywun yn "cynorthwyo gydag ymholiad" neu "os yw un neu ragor o'r personau hynny wedi ei arestio" y mae gofyniad i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mae cyfyngu hawliau i'r sefyllfaoedd hynny yn

golygu, er y gallai fod disgwyliad rhesymol i gael gwasanaeth wyneb yn wyneb yn Gymraeg, na fydd dyletswydd i ddarparu hynny.

5.5. Arafwch ac oedi o ran cryfhau hawliau iaith

5.5.1 Yn sicr, mae newid i'r gyfundrefn Safonau wedi cymryd amser hirfaith. Dim ond un sector sy'n gorfod cydymffurfio â'r Safonau ar hyn o bryd – awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a pharciau cenedlaethol, a hynny dros bum mlynedd ers i Fesur y Gymraeg ddod i rym.

5.5.2. Dros bum mlynedd ers pasio'r Mesur, nid oes amserlen hyd yn oed ar gyfer cychwyn y broses ymchwilio er mwyn gosod Safonau ar y sector telathrebu. Gwrthodwyd gwelliant i Fesur y Gymraeg 2011 wrth iddo fynd drwy'r Senedd fyddai wedi gorfodi'r Llywodraeth i basio rheoliadau o fewn hyn a hyn o flynyddoedd.

5.6. Gwanhau hawliau wrth eu llunio - proses sy'n ffafrio'r sefydliad

5.6.1. Mae gweision sifil wedi gwanhau'r Safonau oherwydd lobio gan gyrff a cheidwadaeth naturiol cyfreithwyr y Llywodraeth. Nid oes gan y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg hawliau na chyfleoedd cyfartal o dan y Mesur i gryfhau geiriad y Safonau. Yn wir, yn hytrach na dilyn casgliadau annibynnol Comisiynydd y Gymraeg, mae gweision sifil wedi cyfyngu hawliau iaith oherwydd lobio unigol gan gyrff sy'n dod o dan y Safonau. Mewn nifer o achosion, ymddengys bod y gweision sifil a'r cyfreithwyr yn anghofio bod modd amrywio'r Safonau drwy hysbysiad cydymffurfio'r Comisiynydd os oes angen, yn hytrach nag yn y rheoliadau eu hunain.

5.6.2. Mae eithriad ar gyfer gwasanaethau 999, 112, 0800 405040 ac ymholiadau'r heddlu ar fyr rybudd (er enghraifft, pan fydd corff yn gwneud ymholiadau o ddrws i ddrws) yn y Safonau (Rhif 5) yn hytrach nag amrywio'r gofyniadau drwy'r hysbysuadau cydymffurfio. Mae hyn yn dangos bod gwanhau parhaus o hawliau'r cyhoedd i'r Gymraeg yn digwydd yn y rheoliadau, a hynny heb ymgynghori â'r cyhoedd.

5.7. Angen am eglurder am gyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Gymraeg

5.7.1. Mae nifer o broblemau wedi deillio o'r ffaith nad oes eglurder am bwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg. Mae nifer o benderfyniadau wedi dangos diffyg meddwl strategol, er enghraifft, y penderfyniad i dorri prosiect Twf. Hefyd nid oedd eglurder ynglŷn â lle pwy oedd hyrwyddo bodolaeth y Safonau a'r newidiadau yn y gyfraith. Mae cyfrifoldeb am ddsrannu rhai bathodynau sy'n dangos eich bod yn siarad Cymraeg ar Gomisiynydd y Gymraeg, ond y rhan fwyaf o'r gwaith hyrwyddo yn gyfrifoldeb ar y Llywodraeth.

5.7.2. Rydym yn parhau i ddadlau dros sefydlu corff ar wahân i'r Comisiynydd a'r Llywodraeth, i gymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg, sef Cyngor y Gymraeg, fyddai'n gallu defnyddio cyllid a strategaeth i hyrwyddo defnydd yr iaith.

5.8. Materion statws sylfaenol heb eu diogelu

5.8.1. Er bod y Safonau yn ymdrin ag ymddygiad nifer o gyrff, nid ydynt yn diogelu materion statws sylfaenol, megis enwau Cymraeg ar ddatblygiadau, enwau stryd, enwau lleoedd a thai. Mae nifer o ddatblygiadau heb enw nag arwyddion Cymraeg megis Friars' Walk yng Nghasnewydd ac One Central Square yng Nghaerdydd.

5.9. Hawliau yn gyfyngedig i rai sectorau yn unig

5.9.1. Rydym wedi gweld sawl adroddiad yn cyfeirio at ddiffygion nifer o sectorau preifat sy'n

dangos nad oes modd sicrhau darpariaeth Gymraeg ddigonol ar draws y sector breifat heb orfodaeth gyfreithiol.

5.9.2. Does dim un banc yn cynnig gwasanaeth bancio ar-lein ar eu gwefan na thrwy gyfrwng 'ap' yn Gymraeg, a hynny er gwaethaf y ffaith bod symudiad sylweddol tuag at y dull hwnnw o fancio dros bapurau a changhennau. Gan fod pob un o'r prif fanciau yn prysur ddisodli'r gwasanaethau Cymraeg prin a geir yn eu canghennau â darpariaeth ddigidol uniaith Saesneg, deddfu yw'r unig ffordd i sicrhau fod y gwasanaethau Cymraeg yn cael eu diogelu a'u datblygu.

5.9.3. Mae hyd yn oed rhai banciau yn cytuno â'r syniad hwn. Mewn llythyr oddi wrth Nationwide, dywed y banc eu bod yn cefnogi'r syniad o ddeddf iaith a fyddai'n gorfodi'r sector breifat, gan gynnwys banciau, i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn.

5.9.4. Cynhaliwyd adolygiad o'r sector bancio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015 a ddaeth i'r casgliad: *"Camu yn ôl yn hytrach nag ymlaen wnaeth banciau o safbwynt eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf; a ni wnaed lle i'r Gymraeg yn y datblygiadau arloesol sy'n prysur ddisodli'r dulliau traddodiadol o fancio ... Mae defnyddwyr y gwasanaethau yn sicr wedi sylwi ar hyn, ac rwyf wedi gweld cynnydd sylweddol yn y cwynion sydd wedi dod i law gan unigolion a mudiadau sy'n siomedig â diffyg darpariaeth Gymraeg y banciau yng Nghymru."*

5.9.5. Ym mis Awst y llynedd, cyhoeddodd Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith adolygiad o archfarchnadoedd, a ddangosodd yn glir nad yw nifer o'r prif gwmnïau yn y maes yn mynd i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o sylwedd heb orfodaeth gyfreithiol. Dywedodd *Asda* wrthym mai cydymffurfio â gofynion cyfreithiol oedd y brif ystyriaeth iddynt. Datganodd *Morrisons* y byddai cael gormod o arwyddion yn drysu cwsmeriaid: "Mae cost sylweddol ynghlwm wrth ail-osod yr holl arwyddion tu fewn i'n siopau. Yn nifer o'r ardaloedd mae hefyd angen ystyried faint o le sydd – a gall ychwanegu ail iaith ei wneud yn anodd i gwsmeriaid ddeall yr arwydd". Mae *Sainsbury's* yn esbonio bod rhai arwyddion yn uniaith Saesneg oherwydd "...mae angen i ni sicrhau eu bod yn glir i'n holl gwsmeriaid a'n cydweithwyr. Oherwydd hyn, mae pob arwydd ynglŷn ag iechyd a diogelwch a thaliadau yn uniaith Saesneg"

5.9.6. Mae swyddogion Cymdeithas yr Iaith wedi cwrdd â chymaint o gwmnïau, megis *Morrisons* a *Marks & Spencer*, dros y blynyddoedd diwethaf. Er i ni lwyddo i argyhoeddi rhai unigolion o fewn y cyrff i fabwysiadu polisi, pan fo'r swyddogion hynny yn symud ymlaen mae'r polisi yn mynd yn angof. Yn ogystal, mae diffygion yn rhannol yn deillio o'r ffaith nad yw'r cwmnïau hyn yn trin Cymru fel un uned – mae nifer ohonynt yn rheoli gogledd a de'r wlad o leoedd gwahanol er enghraifft. Felly, er bod gan rai unigolion mewn nifer o gwmnïau gydymdeimlad, mae diffyg statud i sicrhau darpariaeth barhaol yn arwain at wasanaethau tameidiog, anghyson a gwan.

5.9.7. Nid oes yr un banc nac archfarchnad yn darparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn, ac nid yw datblygu gwasanaethau Cymraeg yn flaenoriaeth i'r un ohonynt. Nid yw cwmnïau'r sector breifat yn ymateb i'r ddyletswydd foisol sydd arnynt, felly mae'n rhaid rhoi dyletswydd gyfreithiol arnynt.

5.10. Yr angen am fesurau i amddiffyn a hybu gweithredu'n fewnol yn Gymraeg

5.10.1 Nid yw'r gyfraith bresennol yn gwarantu'n ddiamod hawl cyrff i weithio'n fewnol ac yn allanol yn Gymraeg yn unig. Mae bodolaeth sefyllfaoedd o'r fath yn hanfodol os yw'r Gymraeg i ffynnu ar lefel gymunedol ac yn y gweithle.

5.10.2. Yn sgil penderfyniad yr Ombwdsmon i orfodi Cyngor Cymuned Cynwyd i gyhoeddi dogfennau yn Saesneg, codwyd pryderon cynyddol gyda ni y byddai rhaid i ragor o'r cynghorau cymuned prin sy'n gweithredu'n fewnol yn Gymraeg beidio â gweithredu'n fewnol yn Gymraeg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn glir nad oes amddiffyniad statudol clir drwy'r Safonau sy'n rhoi sicrwydd i'r cyrff hyn. Yn ystod helynt Cartrefi Gwynedd yn ogystal, daeth yn glir nad oedd dull drwy'r Safonau i amddiffyn polisi o weithredu'n fewnol yn Gymraeg gan i'r corff benderfynu gollwng yr angen i allu gweithio drwy'r Gymraeg mewn hysbysebion swyddi nifer o uwch swyddogion.

5.11. Ymestyn hawliau gweithwyr i'r Gymraeg i bob sector

5.11.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyfyngu 'Safonau Gweithredu', sef y Safonau sy'n rhoi hawliau iaith i weithwyr ac sy'n ymwneud â pholisïau recriwtio, i gyrff y sector gyhoeddus yn unig, felly nid oes hawl gan weithwyr cwmnïau, megis rhai bws, trên ac ynni, i ddysgu Cymraeg, na gorfodaeth ar y cyrff i roi polisïau yn eu lle er mwyn cynllunio'r gweithlu'n iawn.

5.12. Cynllunio'r gweithlu – angen rhagor o weithredu

5.12.1. Mae llawer o feirniadaeth wedi bod dros y degawdau am fethiant cyrff i gynllunio'r gweithlu fel bod capasiti cyflenwi gwasanaethau Cymraeg yn iawn ac i sicrhau defnydd cynyddol o'r Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn gadael i gyrff benodi gweithwyr sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg ar gyfer eu holl swyddi heb unrhyw ddisgwyliad i ddysgu'r iaith ychwaith. Mae gweision sifil wedi dweud bod problemau o ran gosod mesurau fel sydd eisoes wedi bod yn bolisi gan Heddlu Gogledd Cymru ac eraill, i sicrhau bod pob gweithiwr newydd â sgiliau Cymraeg, a hynny gan nad oes darpariaeth mewn deddfwriaeth gynradd.

5.12.2 Tynnodd asesiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad sefydliadau sylw at ddiffygion difrifol o ran cynllunio'r gweithlu:

"Yn y sector iechyd, chwech o'r 659 hysbyseb a wiriwyd (0.9%) oedd yn cynnwys gofynion ieithyddol statws hanfodol. O'r 595 hysbyseb gan gynghorau, 2% (12) oedd yn cynnwys gofynion ieithyddol statws hanfodol."

"O'r holl fanylebau person a wiriwyd, roedd 4.3% (64 swydd) yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn statws hanfodol..."

"Ymhlith y sectorau oedd yn llai tebygol o gynnwys gofynion sgiliau Cymraeg yn y manylebau person oedd y cynghorau (31%), heddluoedd (28%) a'r darparwyr tai cymdeithasol (18%)."

Ac yn ei nodyn briffio am etholiadau'r Cynulliad 2016, dywed Comisiynydd y Gymraeg:

"Her 8 - Bydd angen i lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau pwrpasol er mwyn sicrhau bod y newidiadau a ddaw yn sgil diwygio llywodraeth leol yn cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob rhan o Gymru. Mae hynny'n cynnwys ... cymryd camau i sicrhau mwy o weinyddu mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn awdurdodau lleol yn y dyfodol gan adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli eisoes."

5.12.3. Heb fesurau cadarn er mwyn cynllunio'r gweithlu nid oes modd gwneud y Gymraeg yn un o brif ieithoedd y gweithle, na chynyddu defnydd y Gymraeg, nac ychwaith ei normaleiddio ledled y wlad. Pwysleisiodd 'Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016 bwysigrwydd y maes hwn:

"Eto i gyd, cyflwynodd Comisiynydd yr Iaith dystiolaeth mai allan o 595 hysbyseb swydd o 9 Awdurdod Lleol a wiriwyd, dim ond 12 swydd oedd yn cynnwys gofynion ieithyddol statws hanfodol (2%) a dim ond 10 (1.7%) oedd yn cynnwys gofynion ieithyddol statws dymunol."

“Rhaid gofyn y cwestiwn yn blwmp ac yn blaen: beth yw diben addysgu cenedlaethau o bobl ifanc drwy'r Gymraeg neu i siarad Cymraeg oni gwneir defnydd o'r sgiliau hynny mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd â gofynion statudol dwy iaith arnyn nhw?”

5.13. Pryder am adnoddau ac annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg

5.13.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi mynegi pryderon cynyddol am ei gallu i gyflawni ei swyddogaethau'n iawn gyda thoriadau sylweddol cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn llythyr at y pwyllgor cyllideb ym mis Ionawr 2016, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

“Rwyf wedi derbyn toriadau ariannol i'm cyllideb dros y 2 flynedd diwethaf, gyda thoriad pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. I'w chymharu â chyllideb o £4,100,000 ar gyfer 2013-14, derbyniwyd toriad o £410,000 (10%) ar gyfer 2014-15 a thoriad o £300,000 (8%) ar gyfer 2015-16.

“Er nad yw cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn nodi'n benodol beth fydd y gyllideb ar gyfer 2016-17, derbyniais llythyr gan y Prif Weinidog ar 23 Rhagfyr yn fy hysbysu o doriad arall o 10%. Byddai hyn yn doriad pellach o £339,000, gan adael cyllideb flynyddol o £3,051,000. Golyga hynny bydd y sefydliad wedi derbyn toriadau mewn termau ariannol o 26% mewn 3 blynedd (32% mewn termau real ar ôl ystyried effaith chwyddiant).”

5.13.2. Mae cyrff cyfatebol eraill yn derbyn arian yn syth o Gronfa Gyfunol Cymru ac felly yn rhydd o unrhyw bwysau anuniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Caiff yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei benodi gan y Frenhines yn dilyn argymhelliad gan y Cynulliad, a'i ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff y Comisiynydd Safonau, sy'n ymwneud â safonau yn y Cynulliad, ei benodi gan y Cynulliad a'i dalu o Gronfa Gyfunol Cymru. Gellid dadlau bod annibyniaeth ariannol y Comisiynydd yn bwysicach neu, fan lleiaf, cyn bwysiced â'r cyrff hyn o ystyried ei bod yn gyfrifol am reoleiddio Llywodraeth Cymru gyda phwerau cosbi sifil. Yn wir, dyna yw barn y Comisiynydd ei hun:

“Bydd llwyddiant y gyfundrefn safonau yn ddibynnol i raddau ar allu'r Comisiynydd i ddefnyddio'i phwerau i sicrhau cydymffurfiaeth yn ôl yr angen, ac heb deimlo dylanwad gwleidyddol neu ymyrraeth gan eraill. Un o'r sefydliadau cyntaf ddaw yn ddarostyngedig i ofynion safonau yw Llywodraeth Cymru. Wrth i swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiynydd ddod i rym mae bod yn annibynnol oddi ar y Llywodraeth yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff annibynnol, ond Gweinidogion Cymru sydd yn ariannu a phenodi'r swydd. Bydd angen i lywodraeth nesaf Cymru sicrhau mai i'r Cynulliad Cenedlaethol fydd y Comisiynydd yn atebol yn y dyfodol ac nid i Lywodraeth Cymru. Dyma linell atebolrwydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, a chred y Comisiynydd mai dyma'r llinell atebolrwydd mwyaf priodol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.”

5.13.3. Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru Dr Mike Shooter i gynnal adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Argymhellodd yr adolygiad mai'r Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Cymru ddylai benodi ac ariannu'r Comisiynydd Plant yn y dyfodol. Anghytunodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru, er mawr siom i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Pedwerydd Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai unrhyw bwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad bwysu'n gryf dros ailystyried y penderfyniad hwn.

5.14. Anghysondeb rhwng cyrff datganoledig a chyrff Llywodraeth Prydain

5.14.1. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nid oes modd gorfodi cyrff y goron, megis yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) a'r Swyddfa Pasbort, i gydymffurfio â'r Safonau heb ganiatâd Ysgrifennydd Cymru. Nid yw Ysgrifennydd Cymru wedi caniatáu i'r un o gyrff y

goron fod yn ddarostyngedig i'r Safonau ers i'r Mesur ddod i rym yn 2011.

5.14.2. Yn ogystal, mae Mesur Cymru fel y'i draftiwyd yn debygol o waethygu'r sefyllfa gan y bydd holl adrannau Llywodraeth Prydain yn ogystal â chyrff y goron yn cael eu heithrio o ddarpariaethau datganoledig.

5.14.3. Yn hynny o beth, mae pwerau presennol y Cynulliad yn gliriach ac yn gryfach na'r sefyllfa pan fydd Mesur Cymru wedi dod i rym. Mae cwestiwn yn codi ynghylch a ddylai'r Cynulliad ystyried deddfu cyn mis Ebrill nesaf felly.

5.14.4. Pan ddaw hi at rai ffurflenni a dogfennau, mae ffurf rhai wedi ei ragnodi gan ddeddfwriaeth Senedd San Steffan a hynny'n uniaith Saesneg, ac nid oes modd i'r Safonau, gan eu bod yn is-reoliadau, sicrhau eu bod yn Gymraeg. Er mwyn unioni'r sefyllfa, byddai rhaid cael cymal ar wyneb Mesur y Gymraeg diwygiedig sy'n debyg i erthygl 13 yng nghyfraith sylfaenol Gwlad y Basg.

5.15. Sectorau Coll – enwi cyrff a rhyddid ar-lein

5.15.1. Mae nifer o feysydd bywyd sydd wedi eu heithrio heb unrhyw benderfyniad na bwriad i'w heithrio. Er enghraifft, rydym ar ddeall nad yw Maes Awyr Caerdydd yn ddarostyngedig i'r Safonau er ei fod yn gwmni mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno. Mae hynny er gwaethaf y ffaith bod cwmnïau bysiau a threnau yn cael eu henwi yn y Mesur presennol.

5.15.2. Yn yr un modd, ymddengys bod rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn adran 111 y Mesur yn gyfyngedig. Ym marn Comisiynydd y Gymraeg, nid yw'n ymestyn i sefyllfaoedd ar-lein megis gwefannau fel *Gumtree* sy'n gwahardd postio yn Gymraeg, *Twitter* sy'n gwahardd aelodau'r cyhoedd rhag hysbysebu trydariau Cymraeg, a *TripAdvisor* sydd ddim yn caniatáu adolygiadau Cymraeg.

6. Asesu'r Gyfundrefn Bresennol – Cryfderau i adeiladu arnynt

6.1. Serch nifer o'r pwyntiau uchod, mae nifer o gryfderau i'r gyfundrefn bresennol, yn enwedig wrth ystyried y gyfundrefn a fu o dan Ddeddf Iaith 1993. Mae'n cynnwys sawl elfen ac egwyddor y dylid eu diogelu wrth i'r Mesur gael ei ddiwygio. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'n bryd mynd â'r egwyddorion uchod ymhellach.

6.2. Mwy o gysondeb rhwng sectorau

6.2.1. Yn wahanol i'r gyfundrefn cynlluniau iaith, mae gan y gyfundrefn safonau botensial i fod yn fwy cyson rhwng cyrff a sectorau. Fodd bynnag, mae perygl wrth i'r broses symud yn ei blaen y bydd llai a llai o gysondeb yn enwedig gyda thueddiad y gwasanaeth sifil i ychwanegu rhagor o eithriadau ac o ganlyniad i'r diffyg grym i greu hawliau i weithwyr yn y sector breifat. Credwn y byddai hawliau cyffredinol ar wyneb y Mesur yn gwneud hawliau pobl yn gliriach ar draws holl feysydd bywyd. Ymhellach, gallai fanteisio yn fwy ar y cysondeb a gynnigir gan y gyfundrefn Safonau drwy orfodi gweddill y sector breifat i gydymffurfio â'r Ddeddf.

6.3. Y potensial i ymestyn dyletswyddau i gwmnïau telathrebu, megis cwmnïau ffonau symudol

6.3.1. Mae Mesur y Gymraeg yn caniatáu i Weinidogion osod Safonau ar gwmnïau ffonau symudol nad oedd modd gwneud o dan Ddeddf Iaith 1993. Fodd bynnag, nid yw Comisiynydd y Gymraeg na Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny.

6.4. Dulliau gorfodi mwy pwerus na'r hen gynlluniau iaith, megis y gallu i ddirwyo hyd at £5,000

7.4.1. Mae'r gyfundrefn orfodi, er yn ei dyddiau cynnar, yn sicr yn fwy grymus na'r gyfundrefn cynlluniau iaith. Fodd bynnag, credwn fod lle i gynyddu'r trothwy dirwyo mewn rhai achosion.

6.5. Rhai dyletswyddau ychwanegol megis yr hawl i wersi nofio Cymraeg

6.5.1. Mae rhai o'r Safonau yn cynnig gwasanaethau gwell na'r hyn a gafwyd mewn cynlluniau iaith mewn nifer o ardaloedd, megis Safon 84, sy'n golygu bod cyrsiau addysg i'r cyhoedd, megis gwersi nofio i blant, yn gorfod cael eu cynnig yn Gymraeg

6.6. Sefydlu Comisiynydd y Gymraeg, sy'n gallu canolbwyntio ar reoleiddio

6.6.1. Cyn sefydlu Comisiynydd y Gymraeg, cafwyd un corff, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, oedd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac, ar yr un pryd, hybu a hyrwyddo defnydd gyda'r un cyrff. Gosodwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn sefyllfa anodd dros ben wrth geisio gorfodi a hyrwyddo ar yr un pryd. Mae sefydlu Comisiynydd y Gymraeg fel corff rheoleiddio yn fantais wrth sicrhau gwell darpariaeth gan gyrff. Fodd bynnag, mae'n codi cwestiwn am bwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg – nid yw'n eglur ar hyn o bryd. Credwn felly y dylid sefydlu Cyngor y Gymraeg a dileu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a Phanel Cynghori'r Comisiynydd.

6.7. Rhyddid i siarad Cymraeg

6.7.1. Mae'r egwyddor gyffredinol hon wedi cynyddu defnydd y Gymraeg yn uniongyrchol mewn nifer o achosion, er bod ymwybyddiaeth o'r rhyddid yn parhau i fod yn llawer rhy isel. Mae wedi golygu bod gan gwmni *Admiral* bolisi iaith a bod rhyddid gan staff y cwmni i siarad Cymraeg gyda chwsmeriaid.

6.8. Egwyddor 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'

6.8.1. Credwn fod rhaid cael camwahanïaethu cadarnhaol er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, ac mae'r egwyddor newydd yn y Mesur yn cynnig y potensial bod modd i ragor o ofodau a chyrff ddefnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith.

7. Beth sydd angen newid? Crynodeb

7.1. Yn wyneb yr uchod, credwn fod y canlynol ymysg rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer cryfhau defnydd, ynghyd â normaleiddio'r Gymraeg:

- i. Sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod cyrff yn gwella yn barhaus o ran darparu gwasanaethau, llenwi'r manau gwan anochel a ddaw yn sgil y Safonau, a sicrhau bod hawliau pobl i'r Gymraeg yn ddealladwy
- ii. Ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd
 - gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mân-werthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr penodol fel blaenoriaethau tymor byr
 - sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ychwanegu holl gyrff y sector breifat fel categorïau o berson y gellid eu hychwanegu at Atodlen 8 y ddeddfwriaeth
- iii. Annibyniaeth penodiad y Comisiynydd gan y Cynulliad ac annibyniaeth cyllido oddi wrth y Llywodraeth
- iv. Sefydlu Cyngor y Gymraeg a chanddo gyllideb a chyfrifoldeb i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg, gan ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a Phanel Cyngori'r Comisiynydd
- v. Mesurau i sicrhau mwy o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a chynllunio'r gweithlu'n llawer iawn gwell
- vi. Mesurau i amddiffyn a hybu gweithredu mewnol uniaith Gymraeg a gofodau eraill uniaith Gymraeg
- vii. Dyletswydd i enwi adeiladau, tai, lleoedd a strydoedd yn Gymraeg mewn datblygiadau, ynghyd â diogelu enwau Cymraeg sy'n bodoli eisoes

8. Hawliau Cyffredinol i'r Gymraeg

8.1. Pwrpas hawl cyffredinol i'r Gymraeg, yn debyg i'r rhyddid cyffredinol i siarad yr iaith a sefydlwyd gan adran 111 y Mesur, fyddai:

- i. cynnig eglurder llawer iawn gwell i'r cyhoedd o'u hawliau i'r Gymraeg, ac o ganlyniad, hyder i'w defnyddio
- ii. darparu egwyddor i yrru'r Safonau wrth eu llunio a'u datblygu
- iii. llenwi'r manau gwan yn narpariaethau'r Safonau, megis cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyd-destunau newydd, technoleg newydd a ffurf darparu'r gwasanaethau, megis sefydlu is-gwmnïau neu allanoli
- iv. gwrthbws i'r adrannau am 'resymoldeb a chymesuredd' yn y Mesur er mwyn i'r Safonau gael eu llunio gyda defnydd o'r Gymraeg a hawliau'r cyhoedd fel canolbwynt iddynt
- v. caniatáu i hawliau iaith gryfhau ac esblygu heb fod angen deddfu neu basio rheoliadau'n barhaus
- vi. adeiladu ar y rhyddid i siarad yn adran 111 y ddeddfwriaeth bresennol
- vii. sicrhau nad yw hawliau iaith yn cael eu gwadu mewn cyd-destun yn anfwriadol oherwydd nad yw'r sector neu'r corff wedi eu henwi
- viii. darparu egwyddor a fyddai'n gyrru gwelliant parhaus sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg – rhywbeth sydd wedi'i golli o'r hyn oedd mewn cynlluniau iaith
- ix. cynorthwyo cyrff, Comisiynydd y Gymraeg, Tribiwnlys y Gymraeg a'r cyhoedd wrth ddehongli'r Safonau

8.2. Mae nifer o fodelau posib er mwyn datgan hyn a chryfhau'r sefyllfa. Gweler isod rai ohonynt:

8.3. Mesur Iaith 2007 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

“Yr hawl i Gael Gwasanaethau yn Gymraeg

(1) Mae gan bob person yng Nghymru yr hawl i gael gwasanaethau drwy'r Gymraeg boed y gwasanaethau hynny am dâl ai peidio.

(2) Yn unol ag adran (1) uchod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gymryd pob cam priodol i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg.

...”

8.4. Gwelliant a gyflwynwyd i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

“I ychwanegu Adran newydd—

“[]Sefydlu hawliau cyffredinol i fynd gyda'r safonau

(1) Mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

(2) Nid yw is-adran (1) uchod yn gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r dyletswyddau hynny o dan Ran 4 'r Mesur hwn”

8.5. Gwlad y Basg: Erthygl 5 a 6, Cyfraith Sylfaenol rhif 10, 24ain Tachwedd 1982

1. Mae gan holl ddinasyddion Wlad y Basg yr hawl i fedru ac i ddefnyddio 'r [Fasgeg], ar lafar ac yn ysgrifenedig.

2. Mae'r hawliau ieithyddol sylfaenol canlynol dinasyddion Gwlad y Basg yn cael eu cydnabod:

Mewn perthynas â'r Weinyddiaeth a Sefydliadau Eraill,

a) Yr hawl i gynnal cysylltiadau yn y Fasgeg ... ar lafar ac/neu yn ysgrifenedig â'r Weinyddiaeth ac unrhyw gorff neu sefydliad swyddogol sydd wedi ei leoli yn y Gymuned Ymreolaethol.

b) Yr hawl i dderbyn neu'r hawl i gael eu dysgu yn [y Fasgeg]

c) Yr hawl i dderbyn cyhoeddiadau, rhaglenni radio a theledu a ffurfiau eraill o gyfathrebu yn y Fasgeg.

d) Yr hawl i ddatblygu gweithgareddau undebol, proffesiynol, gwaith a gwleidyddol yn y Fasgeg.

e) Yr hawl i fynegi eich hun yn y Fasgeg mewn unrhyw gyfarfod.

3. Bydd yr awdurdodau cyhoeddus yn gwarantu y caiff yr hawliau hyn eu gweithredu, yn ardaloedd tiriogaethol y Gymuned Ymreolaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn weithredol.

Erthygl 6

1. Bydd hawl pob dinesydd i ddefnyddio'r [Fasgeg] wrth ymwneud o fewn ardaloedd y Gymuned Ymreolaethol, ac i gael eu trin yn [y Fasgeg], yn cael ei gydnabod. I'r perwyl hwn, cymerir mesurau perthnasol a darperir y dulliau angenrheidiol er mwyn sicrhau y gweithredir yr hawl hwn yn gynyddol.

1. Euskal Herritar guztiek dute hizkuntza ofizialak hitzez nahiz idatziz ezagutzeko eta erabiltzeko eskubide.

2. Euskal Herritarrei honako funtsezko hizkuntza-eskubide hauek aitortzen zaizkie:

a) Ardulararitzarekin eta Autonomia-Elkartean kokatutako edozein Ihardutze-Sail edo Erakunderekin harremanak hitzez eta/edo idatziz euskeraz edo gaztelaniaz izateko eskubidea.

b) Ikasketak bi hizkuntza ofizialetan egiteko eskubidea.

c) Aldizkariak, irrati eta telebista eta beste adierazpideetako emankizunak euskeraz jasotzeko eskubidea.

d) Lanbidezko, lanezko, politikazko eta sindikaritzazko ekintzetan euskeraz aritzeko eskubidea.

e) Edozein bilkuratan euskeraz egiteko eskubidea.

3. Eskubide hauek eraginkorrak eta benetakoak izan daitezen, herri-agintesailek beroien erabilpena bermatuko dute.

Atala 6

Herritar guztiei, Autonomia Elkarteko lur-eremuan Herri-Ardulararitzarekin izan ditzaten harremanetan euskera nahiz gaztelania erabiltzeko eta bakoitzak aukera dezan hizkuntza ofizialean harrera egin dakioneko eskubidea aitortzen zaie. Horretarako, behar daitezen neurriak hartuko dira eta eskubide honen erabilpena arian-arian bermatzeko beharrezko gerta daitezen eskuarteak ebatziko.

[Ffynhonell: http://www.legebiltzarra.eus/pdfdocs/leyes/ley19820010_f_eus.html
<http://www.baikara.org/wp-content/uploads/2011/01/Ley-normalizacion-Euskera.pdf>

8.6. Catalonia: Erthyglau 3 a 4, Deddf Polisi Iaith, Rhif 1, 1998

Gellir defnyddio'r Gatalaneg ... [fel iaith swyddogol] yn ddiwahân gan ddinasyddion ym mhob gweithgaredd preifat a chyhoeddus yn ddieithriad. Mae gan weithdrefnau cyfreithiol a gynhelir yn [y Gatalaneg] ... cyn belled ag y mae'r iaith a ddefnyddir yn y cwestiwn, ddilysrwydd ac effaith llawn.

El català és lllengua oficial de Catalunya ... a llengües oficials, poden ésser emprades indistintament pels ciutadans i ciutadanes en totes les activitats públiques i privades sense discriminació. Els actes jurídics fets en qualsevoldeles dues llengües oficials tenen, pel que fa a la llengua, plena validesa i eficàcia.

Mae gan bawb yng Nghatalonia'r hawl:

A) I fod yn rhugl yn [y Gatalaneg]

B) I fynegi eu hunain yn [y Gatalaneg], ar lafar neu yn ysgrifenedig, â'u cysylltiadau yn ogystal â mewn gweithdrefnau preifat a chyhoeddus

C) I gael eu gwasanaethau yn [y Gatalaneg] yn y modd a bennir gan y Ddeddf hon

Ch) I ddefnyddio'r [Gatalaneg] yn rhydd ym mhob maes

D) I beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail yr iaith swyddogol a ddefnyddiant

A Catalunya tothom té dret a :

a) Conèixer lesdues [el català].

b) Expressar-se en qualsevol de [el català], oralment i perescrit, en les relacions i els actes públics i privats.

c) Ésser atès en qualsevol de [el català] en els termes que aquesta Llei estableix.

d) Emprar lliurement qualsevol [el català] tots els àmbits.

e) No ésser discriminat per raó de la llengua oficial que empra.

8.7. Hawliau Addysg

8.8. Mae'n werth nodi bod yr un ddeddfwriaeth iaith yng Ngwlad y Basg a Chatalonia yn delio ag hawliau i addysg yn yr iaith frodorol yn ogystal â'r hawl cyffredinol i ddefnyddio'r iaith frodorol.

Erthygl 20 – deddf addysg Catalonia:

1. Mae'r Gatalaneg, fel priod iaith Catalonia, hefyd yn iaith addysg, ar bob lefel ac ym mhob math o addysgu.

2. Bydd sefydliadau addysg ar bob lefel yn peri mai'r Gatalaneg yw'r cyfrwng arferol i fynegi gweithgareddau addysgu a gweinyddol, yn fewnol ac yn allanol.

1. El català, com a llengua pròpia de Catalunya, ho és també de l'ensenyament, en tots els nivells i les modalitats educatius.

2. Els centres d'ensenyament de qualsevol grau han de fer del català el vehicle d'expressió normal en llurs activitats docents i administratives, tant les internes com les externes.

Erthygl 21 – Catalonia

1. Dylai'r Gatalaneg fel arfer gael ei defnyddio fel y cyfrwng addysgu a dysgu mewn addysg nad yw'n addysg Prifysgol

1. El català s'ha d'utilitzar normalment com a llengua vehicular i d'aprenentatge en l'ensenyament no universitari.

Erthygl 22 – addysg uwch Catalonia

Mewn coleg addysg bellach a phrifysgolion, mae gan y staff a'r myfyrwyr yr hawl i fynegi eu hunain, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn yr iaith swyddogol o'u dewis

En els centres d'ensenyament superior i universitari, el professorat i l'alumnat tenen dret a expressar-se en cada cas, oralment o per escrit, en la llengua oficial que prefereixin.

Erthygl 15 – Gwlad y Basg

Cydnabyddir hawl yr holl fyfyrwyr i gael eu haddysgu... yn y Fasgeg...ar y lefelau addysgol gwahanol

I'r perwyl hwn bydd y Senedd a'r Llywodraeth yn mabwysiadu'r mesurau angenrheidiol hynny a fydd yn gogwyddo tuag at ehangu cynyddol yn nwyieithrwydd system addysg Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg.

Ikasle guztiei, hezkuntza maila ezberdinetan, irakaskuntza euskeraz eta gaztelaniaz hartzeko eskubidea aitortzen zaie.

Horretarako Legebiltzarrak, edo hala badagokio Jaurlaritzak, elebitasuna arian-arian Euskal Herriko Autonomia-Elkarteko hezkuntza-erapidetza osora hedatu dedineko xedezko neurri egokiak hartuko ditu.

[<http://llengua.gencat.cat/en/details/article/Capitol-III-00001>]

9. Y Gweithlu

9.1. Yn ogystal, mae deddfwriaeth yng Ngwlad y Basg a Chatalonia yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu ar wyneb eu deddfau hwythau – maes, yn ôl nifer o adroddiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a gweithgorau'r Llywodraeth, y mae angen canolbwyntio arno er mwyn i'r Gymraeg ffynnu. Mae deddfwriaeth y gwledydd hynny yn datgan y canlynol:

Erthygl 14 – Gwlad y Basg

1. Er mwyn gwneud yr hawliau a gydnabyddir yn Erthygl 6 y gyfraith hon yn effeithiol, bydd yr awdurdodau cyhoeddus yn mabwysiadu'r mesurau hynny a fydd yn gogwyddo'n gynyddol tuag at y Fasgeg fel iaith y gweithlu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad.

1. Lege honen 6garren atalean aitortzen diren eskubideak egiteratu daitezen, herri-agintariiek Euskal Herriko Autonomia-Elkarteko Herri-Ardularitzari atxikitako lanariak arian-arian euskalduntzeko xedezko neurriak hartuko dituzte.

Erthygl 24 – Staff Addysgu – Catalonia

Bydd y staff addysgu yn sefydliadau addysg Catalonia, ar unrhyw lefel o addysg nad yw'n addysg prifysgol yn medru'r ddwy iaith ac yn medru eu defnyddio yn eu tasgau dysgu.

Article 24

El professorat dels centres docents de Catalunya de qualsevol nivell de l'ensenyament no universitari ha de conèixer les dues llengües oficials i ha d'estar en condicions de poder fer-ne ús en la tasca docent.

Erthygl 19 a 20 - Gwlad y Basg

Bydd Ysgolion Hyfforddi Athrawon y Brifysgol yn addasu eu cynlluniau addysgu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn hollol rugl yn y Fasgeg a'r Sbaeneg, yn unol â gofynion eu harbenigedd

Atala 19 & 20

Irakasleen gaikuntzarako unibersitate-eskolek irakasleak bere berarizkotasunak eskatzen duenaren arauera euskeraz eta gazteleraz erabat gai izan daitezela lortzeko egokituko dituzte bere ikasketa-egitarauak.

1. Bydd y Llywodraeth, er mwyn gwneud yr hawl i dderbyn addysg yn y Fasgeg yn weithredol, yn sefydlu'r dulliau hynny a fydd yn gogwyddo tuag at wneud y gweithlu addysgu yn gynyddol Basgeg ei iaith.

1. Jaurlaritzak, irakaskuntza euskeraz hartzeko eskubidea egiteratzeko, irakasleak arian-arian gehiago euskalduntzeko bideak jarriko ditu.

2. Yn yr un modd, bydd yn penderfynu pa swyddi y bydd medru'r Fasgeg yn hanfodol ar eu cyfer, er mwyn cydymffurfio â'r hyn a bennir yn Erthyglau 15 ac 16 y gyfraith hon.

2. Halaber, eta Lege honen 15garren eta 16garren ataletan ohartemandakoa betetzeko, euskeraz jakitea nahitaezko izango duten lantoki edo irakaskuntza-gelak zehaztuko ditu.

10. Ymestyn Mesur y Gymraeg 2011 i weddill y sector breifat

9.1. Fel y nodir uchod, roedd Maniffesto Llafur yn etholiadau'r Cynulliad 2016 yn datgan: *"Yn ystod y tymor nesaf byddwn: ... Yn diwygio Mesur y Gymraeg er mwyn bod busnes ac eraill yn gallu buddsoddi i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg"*

9.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi, ac yn cefnogi, ymestyn Mesur y Gymraeg i ragor o'r sector breifat. Er enghraifft, dywedodd Y Prif Weinidog *Carwyn Jones* gerbron y Senedd: *"Mae'r Llywodraeth wrth gwrs yn gefnogol o'r syniad o osod dyletswyddau ar gwmnïau yn y sector preifat...Rwy'n ffyddiog y byddwn yn gosod safonau pellach ar y sector breifat wrth i'r broses fynd yn ei flaen."*

9.3. Ymhellach, mewn cyfarfod gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg ym mis Tachwedd 2015, dywedodd y Prif Weinidog, *Carwyn Jones*, wrth Gymdeithas yr Iaith Gymraeg bod banciau yn 'ddigon mawr' i'w cynnwys yng nghyfundrefn Safonau'r Gymraeg.

9.4. Mewn ymateb i'n deiseb i ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat, dywedodd y Prif Weinidog *Carwyn Jones* mewn llythyr at y pwyllgor deisebau ar 11fed Ionawr 2016 y byddai'n: *"... awyddus i ystyried ffyrdd o hwyluso'r broses o wneud safonau ac ystyried os oes angen ymestyn sgôp y Mesur i alluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod safonau ar sectorau eraill."*

9.5. Mae cryn dystiolaeth nad oes modd sicrhau gwelliant parhaus ar draws sector lawn yr economi heb ddeddfwriaeth. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2015, cyhoeddwyd adroddiad bancio gan Gomisiynydd y Gymraeg a ddywedodd:

"... yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf mae'r gwasanaethau Cymraeg fel pe baent wedi eu diraddio. Camu yn ôl yn hytrach nag ymlaen wnaeth banciau o safbwynt eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf; a ni wnaed lle i'r Gymraeg yn y datblygiadau arloesol sy'n prysur ddisodli'r dulliau traddodiadol o fancio."

9.6. Ymhellach, mae adolygiad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg o archfarchnadoedd hefyd yn egluro nad oes modd gwella hawliau iaith ar draws y sector heb ddeddfwriaeth.

11. Gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg

11.1. Fel y nodir uchod, mae gofodau lle mae'r Gymraeg yn unig iaith y lleoliad neu sefyllfa yn hanfodol os yw'r Gymraeg i ffynnu. Mae arbenigwyr yn cytuno bod gofodau o'r fath yn un o gonglfeini llwyddiant iaith. Fodd bynnag, mae prinder difrifol o sefyllfaoedd o'r fath. Mae helyntion Cyngor Cymuned Cynwyd a Chartrefi Gwynedd yn dangos yn glir nad yw strwythurau cenedlaethol i amddiffyn a hybu gweithredu'n fewnol yn Gymraeg yn ddigonol.

11.2. Un o brif argymhellion adroddiad 'Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog: Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol' ydy y dylai'r Gymraeg fod yn sgil hanfodol yn y bedair prif swydd mewn llywodraeth leol.

11.3. Mae'n bwysig nodi bod rhai cyrff, megis Cyngor Sir Gaerfyrddin gyda chefnogaeth draws-bleidiol, wedi datgan eu bod am symud at weinyddiaeth fewnol Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r Safonau yn cynnig llwybr nag amddiffyniad clir wrth symud at y polisi hwn.

11.4. Mae gan Gatalonia a Gwlad y Basg fesurau er mwyn amddiffyn a chynyddu nifer y cyrff yn hyn o beth:

Erthygl 9, Deddf Polisi Iaith, Rhif 1, 1998, Catalonia

1. Bydd y *Generalitat*, awdurdodau lleol a chorfforaethau cyhoeddus eraill yng Nghatalonia, sefydliadau a'r gwasanaethau a'r cwmnïau trwyddedig y maent yn gyfrifol amdanynt yn defnyddio'r Gatalaneg yn eu gweithdrefnau mewnol ac yn y berthynas â'i gilydd..."

1. La Generalitat, les administracions locals i les altres corporacions públiques de Catalunya, les institucions i les em-preses que en depenen i els concessionaris de llurs serveis han d'emprar el català en llurs actuacions internes i en la relació entre ells..."

Erthygl 8 – Cyfraith Sylfaenol Rhif 10, Gwlad y Basg

3. Er gwaethaf yr hyn a nodir uchod, gall yr awdurdodau cyhoeddus wneud defnydd o'r Fasgeg a'r Fasgeg yn unig ym maes gweinyddiaeth leol..."

3. Gorago agindutakoa hala dela ere, udalaren gizarte-hizkuntzazko egoera dela eta, herritarren eskubideen kaltetango gerta ez dedinean, herri-agintariak, Toki-Ardulararitzaren alorrean, euskera bakarrik erabili ahal izango dute(5).

12. Diogelu a hyrwyddo enwau Cymraeg a statws y Gymraeg ym mhob maes

12.1. Ceir cwynion cyson am enwau Cymraeg a statws y Gymraeg yn cael eu hisraddio gan ddatblygiadau, megis One Central Square yng Nghaerdydd, Plas Glynllifon yng Nghaernarfon, enwi tafarn newydd the *'The Starling Cloud'* yn Aberystwyth, enwau strydoedd ym Mhontypridd a *Friars Walk* yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, nid oes cyfraith sy'n sicrhau bod statws swyddogol y Gymraeg ac enwau Cymraeg yn cael eu parchu eu diogelu, a'u hyrwyddo ledled Cymru.

12.2. Mae cyfraith Gwlad y Basg a Chatalonia yn cynnwys rhai cymalau sy'n berthnasol i'r materion hyn:

Erthygl 18, Deddf Polisi Iaith, Rhif 1, 1998, Catalonia

Fersiynau Catalaneg enwau llefydd Catalonia yn unig yw'r rhai swyddogol...

Els topònims de Catalunya tenen com a única forma oficial la catalana...

Erthygl 10 – Cyfraith Sylfaenol Rhif 10, Gwlad y Basg

“1. Sefydlir enwau swyddogol tiriogaethau, ardaloedd trefol, grwpiau poblogaeth, nodwedddion daearyddol, ffyrdd trefol, ac yn gyffredinol, holl enwau llefydd yng Nghymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, gan y llywodraeth, Sefydliadau Taleithiol y Tiriogaethau Hanesyddol neu gorfforaethau lleol yn eu priod ardaloedd, gan barchu bob tro y Fasgeg, Romáwns, neu'r Sbaeneg gwreiddiol, gyda'r ffurf ysgrifenedig academiaidd cywir ymhob iaith.”

Autonomia-Elkarteko lurralde, udal, herri, jeografia-gorabehera, hiribide eta, oro har, toki-izen guztien izen ofizialak Jaurlaritzak, Kondaira-Lurraldeetako Foru-Erakundeek edo Toki-Erakundeek finkatuko dituzte, bakoitzak berari dagokion aginte-eremuaren barruan eta, beti ere, jatorrizko izen euskaldun, erromantzeko edo gaztelaniazkoari, hizkuntza bakoitzari dagokion idazkeraz men eginez.

13. Casgliadau

13.1. Credwn fod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad wrth ystyried deddfu yn y maes i ganolbwyntio ar y cyhoedd a defnydd o'r Gymraeg yn hytrach na buddiannau swyddogion cyrff. Mae'n bwysig nad yw'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar leihau gwaith papur er lles gweision sifil, ar draul ymdrech i wella'r gyfundrefn ar lawr gwlad a defnydd yr iaith.

13.2. Sylweddolwn mai ar ddechrau'r drafodaeth am gryfhau Mesur y Gymraeg ydyn ni, a chynigiwn yr argymhellion uchod fel cyfraniad at y drafodaeth. Bwriadwn fireinio ein cynigion wrth gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru dros y misoedd nesaf.

Grŵp Hawl
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Gorffennaf 2016

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Dogfen ymgynghorol yw hon, os oes sylwadau gennych, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy'r dulliau canlynol erbyn 16eg Medi 2016:

post@cymdeithas.cymru

[@cymdeithas](https://www.instagram.com/cymdeithas)

[facebook.com/cymdeithas](https://www.facebook.com/cymdeithas)

01970 624501

Cymdeithas yr Iaith,
Prif Swyddfa, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth, SY23 2AZ